

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd brynhawn Mawrth 19 Medi, 2017 am 2pm ym Mhencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet oedd yn bresennol:

A. Morgan M. Webber M. Norris
R. Bevan R. Lewis A. Crimmings G. Hopkins
C. Leyshon

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:

J. Brencher G. Davies P. Jarman E. Stephens
E. Webster M. Weaver J. Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr C. Hanagan – Cyfarwyddwr y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus (Ysgrifennydd i'r Cabinet)

Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms E. Thomas – Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Dros Dro

Mr T. Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Ms J. Cook – Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio

Mr N. Wheeler – Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd

C. Atyeo – Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor a Chaffael

Mr A. Griffiths – Pennaeth Materion y Priffyrdd a Pheirianeg

Ms J. Thomas – Rheolwr Materion Gwella Gwasanaethau, Ymgysylltu a Chwynion

25. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Rosser.

26. DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

- Datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Bevan y buddiant personol canlynol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Agendwm 5, 7 ac 8 – “Mae fy merch i yn gweithio i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Bydda i'n aros yn y cyfarfod pan fydd y mater yn cael ei drafod”
- Mewn perthynas ag Agendwm 12, datganodd y swyddogion canlynol (o'r Uwch Garfan Arwain) y buddiannau personol ac ariannol:
 - C. Bradshaw, Prif Weithredwr – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Oherwydd fy nyletswyddau yn Brif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig, rydw i o'r farn y dylwn i gyflwyno'r adroddiad a'r argymhellion i'r Aelodau, ac ymdrin ag unrhyw gwestiynau sydd gyda nhw.”
 - T Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Oherwydd fy nyletswyddau yn Gyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, a'r ffaith y bydd cynnwys yr adroddiad yn effeithio ar y gweithlu, rydw i o'r farn y dylwn i aros yn y cyfarfod gyda Phennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig i ymdrin ag unrhyw gwestiynau sydd gan y Cabinet.”
 - C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yma'n cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw. Serch hynny, oherwydd fy nyletswyddau yn Gyfarwyddwr y

Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, bydda i ar gael i ymdrin ag unrhyw gwestiynau sydd gan y Cabinet sy'n ymwneud â'r gyfraith neu'r weithdrefn"

- C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw.”
- Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw.”
- C. Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw.”
- Ms E. Thomas – Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Dros Dro – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw.”
- Ms J. Cook – Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw.”
- Mr N. Wheeler – Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw.”
- C. Atyeo – Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor a Chaffael – “Cyfeirir at fy swydd yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw.”

27. COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2017 yn rhai cywir.

28. ADRAN 3A – CYNLLUN YR ARWEINYDD AR GYFER DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL 2017/18

Er eu gwybodaeth, rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau o'r Cabinet am Gynllun yr Arweinydd ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol yn y flwyddyn i ddod, yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

Dywedodd y swyddog fod Gweithgor Lluoedd Arfog wedi cael ei sefydlu er mwyn cynorthwyo'r gwaith sy'n ymwneud â chyfamod y lluoedd arfog. Mae Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau wedi cael ei sefydlu hefyd er mwyn helpu i gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor mewn perthynas â Chymorth Cyllid Grant a dderbyniwyd gan y Cyngor Celfyddydau. Cadarnhawyd hefyd bod y 3A wedi cael ei ddiweddarau ar wefan y Cyngor.

Cytunodd yr Aelodau i nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Chynllun yr Arweinydd ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol.

29. RHAGLEN WAITH Y CABINET

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau o'r Cabinet am y rhestr arfaethedig o faterion sydd angen i'r Cabinet eu trafod yn ystod blwyddyn y Cyngor 2017 - 18 gan nodi y bydd defnyddio'r rhaglen yn helpu gyda didwylledd a thryloywder y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ac yn rhoi rhagor o gyfle i graffu ymlaen llaw.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad a dywedwyd wrthyn nhw bod y rhaglen yn ddogfen fyw fel bydd modd ychwanegu neu ddileu adroddiadau yn ystod y flwyddyn. Tynnodd y swyddog sylw at rai dyddiadau a oedd wedi newid yn yr adroddiadau ar ôl cyhoeddi'r rhaglen a bod yr adroddiad mewn perthynas â Gofal Ychwanegol wedi bod yn destun craffu ymlaen llaw, yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol, 'Y Ffordd Ymlaen'.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd yn gadarnhaol am y gwaith craffu ymlaen llaw a chyfeirio at ganfyddiadau diweddar Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â phroses craffu'r Cyngor a chraffu ymlaen llaw. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant y byddai angen i adroddiad blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol gael ei ychwanegu at y Rhaglen.

Siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater.

PENDERFYNWYD:

- a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017-18 a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

30. ARGYMHELLION GWEITHGORAU CRAFFU

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â chanfyddiadau ac argymhellion Gweithgor y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles a gynhaliodd ymchwiliad 2 flynedd i 'Cefnogi Pobl i Fyw'n Annibynnol yn eu Cartrefi'.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant i'r aelodau o'r gweithgor a gynhaliodd yr ymchwiliad am y gwaith a wnaethon nhw. Siaradodd yn gadarnhaol am yr argymhellion oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau gan ddweud y byddai'n anfon ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi gwaith y Pwyllgorau Craffu fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad
- b) Cytuno mewn egwyddor i bob un o'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adran 2.2 o'r adroddiad, yn amodol ar ystyriaeth gan Aelod Portffolio'r Cabinet ac ar ôl hynny, fe fyddai ymateb manwl yn cael ei roi i'r Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles.

(Ar ôl y penderfyniad, meddai'r Ysgrifennydd i'r Cabinet na fyddai'n destun 'galw-i-mewn' oherwydd bod yr Aelodau yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu.)

31. CYNNIG I GYMERADWYO (MEWN EGWYDDOR) TROSGLWYDDO PRYDLES 99 O FLYNYDDOEDD CANOLFAN ORIAU DYDD Y SANTES FAIR, ABERDÂR I AGE CONNECTS MORGANNWG.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor a Chaffael yr wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn yr adroddiad cabinet blaenorol wedi'i ddyddio 18 Gorffennaf, 2017 ac fe dynnodd sylw at risgiau a buddion y cynnig busnes a gafodd ei gyflwyno gan Age Connects Morgannwg ar gyfer y trosglwyddiad arfaethedig o'r ased cymunedol sef Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair, drwy brydles 99 o flynyddoedd.

Cynghorwyd yr Aelodau bod Age Connects Morgannwg ar fin cwblhau cais ar gyfer cyllid cyfalaf a refeniw gwerth dros £1.1 miliwn i adnewyddu a gwella'r cyfleusterau a'r gwasanaethau er budd y gymuned leol a'r ardal ehangach. Rhoddodd y Cyfarwyddwr sylwadau ynglŷn â'r cyfle i'r Cyngor wella, ailwampio a moderneiddio'r adeilad a'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau yng Nghanolfan Oriau Dydd y Santes Fair drwy weithio mewn partneriaeth gydag Age Connects Morgannwg sy'n bwriadu datblygu'r cyfleuster presennol a'i droi'n hwb cymunedol ar gyfer unigolion o bob oed.

Siaradodd yr Aelodau yn gadarnhaol am y cynnig a'r cyfleoedd fydd ar gael i'r gymuned leol a'r Fwrdeistref Sirol os caiff y cynnig ei symud yn ei flaen. Cyfeirion nhw hefyd at ymweliad ac arddangosfa ddiweddar Age Connects Morgannwg mewn perthynas â'r cynnig.

Cyfeiriodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Lles at yr Hwb Cymunedol cadarnhaol a fyddai ar gael pe bai'r cynnig yn cael ei symud yn ei flaen, yn amodol ar gyllid, a rhoddodd ei ddiolchiadau i'r swyddogion cysylltiedig am eu gwaith ar y cynnig. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y gwaith ymgysylltu cadarnhaol gyda'r trydydd sector a'r angen i wella hyn yn y dyfodol.

Siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cymeradwyo (mewn egwyddor) trosglwyddo prydles 99 o flynyddoedd Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair i Age Connects Morgannwg, yn amodol ar y canlynol:
- Age Connects Morgannwg yn llwyddo i gael Grant Cyfalaf a Refeniw o £1.1 miliwn gan Gronfa'r Loteri Fawr - CAT 2. Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ym mis Chwefror 2018.
 - Cytuno adleoli'r ddarpariaeth Prydau yn y Gymuned bresennol. Bydd Aelodau yn cael adroddiad ar wahân ar y Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned.
- b) Darparu llythyr o gefnogaeth i ategu cais Age Connects Morgannwg i'r Loteri Fawr y mae gofyn iddo gael ei gyflwyno erbyn 26 Medi 2017.

(D.S. Yn dilyn y penderfyniad, dywedodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet y byddai angen i'r penderfyniad gael ei wneud ar frys gan mai 26 Medi yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais, ac oherwydd hynny, fyddai dim angen iddo fod yn destun 'galw-i-mewn'.)

32. BWRDD DIOGELU CWM TAF – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yr Adroddiad Blynyddol cyntaf i'r Aelodau ers sefydlu Bwrdd Diogelu Cwm Taf amlasiantaeth rhanbarthol ar y cyd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Bwrdd Diogelu Oedolion, y Bwrdd Diogelu Plant, ar y cyd â'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth wedi cyfuno a bod y rhain wedi parhau i weithio ar y cyd i ddiogelu pobl o bob oed.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant fod y Byrddau yma i gyd yn un endid erbyn hyn ac roedd hynny'n ffordd newydd a chadarnhaol o weithio er budd yr oedolion a'r plant yn y Fwrdeistref

Sirol ac yn ardal Cwm Taf. Siaradodd yr Aelod am y trefniadau diogelu cadarn sydd ar waith a'r gwelliant parhaus ym mhob rhan o ardal Cwm Taf. Cafodd y sylwadau ynghylch y dull gweithredu ar y cyd eu hadleisio gan y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc, a soniodd ef am fanylder yr adroddiad mewn perthynas ag atebolrwydd a gwerthuso, a phwysigrwydd hynny.

Siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater.

PENDERFYNODD y Cabinet:

- a) Nodi a chymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol 2016/17 Bwrdd Diogelu Cwm Taf

33. GWEITHDREFNAU SYLWADAU A CHWYNION - ADRODDIAD BLYNYDDOL

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned adroddiad blynyddol y 'Weithdrefn Sylwadau a Chwynion' i'r Aelodau a soniodd am ddull gweithredu annibynnol a chadarn y garfan.

Rhoddodd Rheolwr Gwella Gwasanaethau, Ymgysylltu a Chwynion fanylion ychwanegol i'r Aelodau mewn perthynas â chymariaethau Awdurdod Lleol yn y cyfarfod yn dilyn awgrymiad gan y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc i gynnwys y data yma.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned Oedolion a Phlant ei ddiolchiadau i'r Rheolwr Gwella Gwasanaethau, Ymgysylltu a Chwynion a'r garfan am eu gwaith a sôn am bwysigrwydd eu gwaith er lles y trigolion ac er lles y Cyngor yn ogystal, er mwyn iddo ddysgu a gwella'r gwasanaethau mae'n eu darparu.

Siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater.

PENDERFYNODD yr Aelodau o'r Cabinet:

- a) Cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol
- b) Nodi'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef gan Garfan Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

34. GRANT CYNNAL CANOL TREFI

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio fanylion am Grant Cynnal Canol Trefi arfaethedig a fydd yn cael ei roi ar brawf am flwyddyn gan ddechrau yn Ardaloedd Manwerthu Aberpennar a Thonypandy. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r Grant yn cynorthwyo'r masnachwyr a'r landlordiaid i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a fyddai'n gwella edrychiad allanol eiddo canol trefi.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai yn gadarnhaol am y cyfleoedd cyllid grant gan ychwanegu mai bwriad y cynllun yw cyfrannu at effaith gadarnhaol golwg y strydoedd a fydd yn creu amgylchedd canol tref mwy deniadol a bywiog. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r cynllun arbrofol yn cael ei werthuso a phe bai'n llwyddo, byddai'n cael ei gynnig i ganol trefi eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater.

PENDERFYNODD yr Aelodau:

- a) Cymeradwyo'r cynigion ar gyfer y Grant Cynnal Canol Trefi a rhoi'r cynllun ar waith.
- b) Cynnal adolygiad ar ddiwedd y cynllun arbrofol er mwyn llywio darpariaeth yn y dyfodol.

35. DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN I ADEILADU FFORDD AR DRAWS Y CWM, ABERPENNAR

Cyfeiriodd Pennaeth Priffyrdd a Pheirianeg yr Aelodau at yr adroddiad o'u blaen a oedd yn rhoi manylion am y cynnydd presennol mewn perthynas â datblygiad a chyflawniad y prosiect trafndiaeth graddfa fawr, sef adeiladu ffordd ar draws y cwm, Aberpennar, ers y diweddariad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 15 Mawrth, 2017.

Cafodd yr Aelodau y manylion am y gwaith cynllunio, y tir, y gwaith adeiladu a'r cyllid sy'n ymwneud â'r prosiect. Manteisiodd y swyddog ar y cyfle i egluro'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo i Gyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd mewn perthynas â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol sydd ei angen ar gyfer mynd â'r prosiect yn ei flaen. Cwblhaodd y swyddog ei ddiweddariad drwy roi gwybod y byddai'r gwaith llunio manwl ac adeiladu'r gyffordd yn parhau wrth i'r prosiect ddatblygu.

Rhoddodd yr Arweinydd sylwadau ar y cynnydd cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan ychwanegu bod y gwaith o adeiladu ffordd gyswllt ar draws Cwm Cynon yn bwysig iawn a diolchodd i'r swyddogion perthnasol am eu trafodaethau a'u cyfarfodydd parhaus gyda thrigolion a rhanddeiliaid cysylltiedig. Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle hefyd i siarad am ei siom tuag at Network Rail a'i wrthodiadau parhaus i unrhyw ddatblygiadau arfaethedig ar draws y rhanbarth pan oedd y gwaith yn digwydd ger tir Network Rail.

Siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi'r cynnydd hyd yma a chymeradwyo'r camau nesaf sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.
- b) Dirprwyo'r awdurdod i Gyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd i wneud y canlynol:
 - Yn amodol ar gael caniatâd cynllunio a digon o gyllid ar gyfer pob cam o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol a sicrhau gwneud, cadarnhau a gweithredu'r Gorchymyn Prynu Gorfodol mewn perthynas â'r tir sydd

wedi'i nodi ar y cynllun (Atodiad A) gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, y camau gweithdrefnol canlynol:

- Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Gorchymyn Prynu Gorfodol gan Weinidogion Cymru (neu, os yw hynny'n cael ei ganiatáu, gan y Cyngor yn unol ag Adran 14A o Ddeddf Caffael Tir 1981), gan gynnwys paratoi a chyflwyno achos y Cyngor mewn unrhyw Ymchwiliad Cyhoeddus a all fod ei angen.
- Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau o gadarnhad o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ac ar ôl hynny, gweithredu a chyflwyno unrhyw Ddatganiadau Breinio Cyffredinol a/neu Hysbysiadau i Drafod Telerau a Hysbysiadau Mynediad.
- Cael y buddiannau angenrheidiol yn y tir.
- Atgyfeirio anghydfodau sy'n ymwneud ag iawndal prynu gorfodol i'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau).

(D.S. Yn y fan honno, gadawodd y Cynghorydd R. Bevan y cyfarfod)

36 CADW'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN

PENDERFYNWYD – bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Mae eglurder wrth reoli busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a gallu unigolion yn cael eu trafod a'u hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

37 ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR A SWYDDI RHEOLI CYSYLLTIEDIG Y CYNGOR

Rhoddodd y Prif Weithredwr ei adroddiad i'r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig a oedd yn ymwneud ag adolygu strwythur swyddi Uwch Reolwyr y Cyngor. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bydd y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yn arwain at ostyngiad pellach yng nghostau rheoli, sef £776,116, a fyddai'n golygu mai £2.7 miliwn yw'r cyfanswm o ran lleihau costau yn y maes yma.

Trafododd yr Aelodau y cynigion a oedd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a siaradodd y Cyngorydd P. Jarman ar y mater.

PENDERFYNWYD:

- a) Gweithredu'r strwythurau diwygiedig yn Atodlenni 2(i.a), 2(i.b), 2(ii), 2 (iii), 2(iv.a) a 2(iv.b) rhwng yr hydref 2017 a'r haf 2018, yn amodol ar y broses ymgynghori â staff angenrheidiol.
- b) Nodi y byddai gweithredu'r strwythurau diwygiedig yn rhoi gostyngiad amcangyfrifedig o £766,116 mewn costau rheoli blynyddol ar lefel Uwch Reolwyr (sy'n cynnwys argostau).
- c) Nodi y byddai'r swyddi canlynol yn cael eu dileu o strwythur y Cyngor yn ôl yr hyn sy'n cael ei gynnig yn yr adroddiad (rhwng yr hydref 2017 a'r haf 2018), yn amodol ar gymeradwyaeth Pwyllgor Penodi'r Cyngor:
 - i) Cyfarwyddwr – Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes (Lefel Cyfarwyddwr Cyfadran);
 - ii) Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion a'r Gymuned (Cyfarwyddwr Cyfadran Lefel 1);
 - iii) Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
 - iv) Pennaeth Cyflawniad Cynradd (Graddfa Soulbury);
 - v) Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad (Graddfa Soulbury);
 - vi) Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1)

- vii) Pennaeth Cymunedau a Ffyniant (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
 - viii) Pennaeth Tai Cymunedol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
 - ix) Pennaeth Adnoddau Dynol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
 - x) Pennaeth Cyflogres, Pensiynau a Thaliadau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
 - xi) Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid Gweithrediadol (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2); a
 - xii) Phennaeth Cymorth i Fusnesau ac Etholiadau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2).
- d) Nodi bod y Cabinet, yn sgîl y penderfyniad yn 1. uchod, wedi awdurdodi:
- i) newid swydd Pennaeth Cyflawniad Uwchradd (graddfa Soulbury) o 1 cyfwerth ag amser llawn i 0.5 cyfwerth ag amser llawn;
 - ii) newid teitl swydd 'Prif Swyddog – Seicoleg Addysg' (graddfa Soulbury) i 'Pennaeth Seicoleg Addysg' (graddfa Soulbury);
 - iii) newid teitl swydd 'Prif Swyddog – Cymorth Dysgu' (graddfa Soulbury) i 'Pennaeth Cymorth Dysgu' (graddfa Soulbury);
 - iv) newid swydd Pennaeth y Gwasanaethau Cymuned o Raddfa Soulbury i Bennaeth Gwasanaeth Lefel 1;
 - v) newid swydd Pennaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad o Bennaeth Gwasanaeth Lefel 2 i Bennaeth Gwasanaeth Lefel 1;
 - vi) newid swydd Cyfarwyddwr Adfywio a Chynllunio o Gyfarwyddwr Lefel 2 i Gyfarwyddwr Lefel 1;
 - vii) newid swydd Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol (Cyfarwyddwr Lefel 1) o 0.6 cyfwerth ag amser llawn i 1 cyfwerth ag amser llawn;
 - viii) newid swydd Pennaeth Datblygu'r Gyfundrefn o Bennaeth Gwasanaeth Lefel 2 i Bennaeth Gwasanaeth Lefel 1;
 - ix) newid swydd Pennaeth Rheoli Caffael ac Ynni Dros Dro (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i Bennaeth Rheoli Caffael ac Ynni (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) (0.6 cyfwerth ag amser llawn);

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

- x) newid swydd Pennaeth Rhaglenni Datblygu Archwilio a Chaffael Dros Dro (Pennaeth Gwasanaeth lefel 2) i Bennaeth Rhaglenni Datblygu Archwilio a Chaffael (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2).
 - xi) creu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1);
 - xii) creu swydd Pennaeth Cymorth Cynghori i Ysgolion (Graddfa Soulbury);
 - xiii) creu swydd Pennaeth Gwasanaethau Cynhwysiant (Graddfa Soulbury);
 - xiv) creu swydd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned (Cyfarwyddwr Lefel 2);
 - xv) creu swydd Pennaeth Adfywio a Ffyniant (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
 - xvi) creu swydd Pennaeth Cysylltiadau â Gweithwyr (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
 - xvii) creu swydd Pennaeth Gwasanaethau Cyflogres a Phensiynau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
 - xviii) creu swydd Pennaeth Cyllid a Thaliadau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
 - xix) creu swydd Pennaeth Prosiectau Buddsoddi Strategol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2).
- e) Trosglwyddo swyddogaethau penodol sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o Addysg a Dysgu Gydol Oes i Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd (sy'n dod o dan gyfarwyddiaeth y Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau yn y Gymuned).
- f) Trosglwyddo swyddogaethau penodol sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd i Gynllunio ac Adfywio (sy'n dod o dan gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr).
- g) Bydd swyddogaethau cydlynu Busnes yr Adain Weithredol a'r Cyngor erbyn hyn yn perthyn yn swyddogol i gylch gorchwyl Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

- h) Awdurdodi'r Prif Weithredwr, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, i gychwyn y broses ymgynghori â staff yn unol â Pholisi Rheoli Newid cytunedig y Cyngor ac, yn amodol ar 9. isod (gweler 2.8 o'r adroddiad), i roi'r cynigion ar waith.

- i) Yn amodol ar gwblhau'r broses ymgynghori y soniwyd amdani yn 8. uchod (gweler 2.7 o'r adroddiad), yna lle bo angen, cyfeirio'r mater o'r telerau a'r amodau a chydabyddiaeth o'r swyddi sydd wedi'u cynnwys yn strwythur arfaethedig diwygiedig y gyfarwyddiaeth, at y Pwyllgor Penodi a/neu'r Cyngor llawn fel y bo'n briodol.

- j) Nodi y bydd gofyn am newidiadau ôl-ddilynol i Gyfansoddiad y Cyngor o ran dileu a chreu swyddi Prif Swyddog.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:15pm

Y Cynghorydd A. Morgan

Cadeirydd